



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil hwn

Mawrth 2020

Y BIL GWASANAETHAU BYSIAU (CYMRU)

DATGANIAD O FWRIAD Y POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o fwriad presennol y polisi ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai Gweinidogion Cymru wedi'u grymuso i'w gwneud neu y byddai'n ofynnol iddynt ei gwneud o dan ddarpariaethau'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) ("y Bil").

Lluniwyd y Datganiad er mwyn helpu pwyllgorau i graffu ar y Bil, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol sy'n mynd gydag ef. Mae manylion gweithdrefn y Cynulliad sy'n gysylltiedig â phob un o'r pwerau hyn wedi'u nodi ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol ac ni chânt eu hailadrodd yn y ddogfen hon.

Dibenion allweddol y Bil yw:

- diwygio'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol (Deddf Trafnidiaeth 1985 ("Deddf 1985") a Deddf Trafnidiaeth 2000 ("Deddf 2000")) i ddarparu gwell amrywiaeth o ddulliau y gallai awdurdodau lleol ystyried eu defnyddio wrth gynllunio a darparu gwasanaethau bysiau lleol yn eu hardaloedd; a
- rhoi trefniadau newydd yn eu lle o ran rhannu gwybodaeth.

Er bod darpariaeth fanwl ar gyfer y materion polisi hyn wedi'u nodi ar wyneb y Bil, mae sefyllfaoedd pan fo Llywodraeth Cymru yn ystyried pwerau is-ddeddfwriaeth yn hanfodol i helpu i ddod â'r darpariaethau hynny i rym yn effeithiol ac i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol yn y dyfodol. Felly, mae'r Bil yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn rhagnodi materion o fanylder gweithdrefnol; ac i ddarparu hyblygrwydd ar gyfer materion y gellir bod angen eu diwygio o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y darpariaethau perthnasol.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r pwerau gwneud rheoliadau arfaethedig o dan bob Rhan o'r Bil, ac mae'n nodi'r hyn y gellid ei gyflawni wrth ddefnyddio'r pwerau hyn a pam bod eu hangen. Gan adlewyrchu strwythur y Bil, mae'r rheoliadau wedi'u grwpio fel a ganlyn:

RHAN O'R BIL	RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â
Rhan 2	Cynlluniau partneriaeth Cymru
	Cynlluniau masnachfreinio Cymru

	Darparu gwybodaeth mewn cysylltiad â chynlluniau partneriaeth a chynlluniau masnachfreinio Cymru
Rhan 4	Darparu gwybodaeth am wasanaethau gan weithredwyr gwasanaethau lleol
	Pŵer i ofyn am wybodaeth am wasanaethau bysiau
Rhan 5	Cyffredinol

Nid oes unrhyw bwerau gwneud is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â Rhan 3 o'r Bil (gwasanaethau bysiau awdurdodau lleol).

Mae adran 28 o'r Bil yn darparu y bydd Rhan 5 yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol. Caiff darpariaethau eraill y Bil eu cychwyn drwy orchymyn ar adeg neu adegau a bennir gan Weinidogion Cymru.

Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y darpariaethau yn berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur. Rhagwelir y bydd y Bil yn cael ei weithredu fesul cam a phan fo rheoliadau yn hanfodol i weithredu'r darpariaethau galluogi hynny yn ymarferol, y bwriad yw eu dwyn ymlaen drwy offeryn statudol ar yr un pryd y caiff y darpariaethau eu cychwyn.

RHAN O'R BIL	RHAN 2: CYNLLUNIAU I DDARPARU GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL
RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â	Pennod 1: Cynlluniau Partneriaeth Cymru
YR ADRAN(NAU) LLE Y CYNIGIR PWERAU	8, 10, 11 a 12
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfres o ddiwygiadau i ddarpariaethau'r cynllun partneriaeth ansawdd yn Neddf 2000, ac i'r darpariaethau cofrestru yn adran 6 o Ddeddf 1985, i gyflwyno cynllun partneriaeth pwrpasol i Gymru, a fydd yn dwyn y teitl Cynllun Partneriaeth Cymru (WPS).</p> <p>Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru bennu, drwy reoliadau, sawl manylyn sy'n ymwneud â'r broses o sefydlu WPS, neu amrywio neu ddirymu cynlluniau o'r fath.</p> <p>Bydd Gweinidogion Cymru yn cael y pŵer i wneud rheoliadau:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. i wneud darpariaeth mewn sefyllfaoedd pan fo WPS yn cynnwys cyfleusterau neu fesurau sydd eisoes yn bodoli; 2. am y weithdrefn i'w dilyn wrth wneud, amrywio neu ddirymu WPS; 3. am y drefn wrthwynebu ar gyfer WPS gan gynnwys, y mathau o safonau gwasanaeth y gellid eu gwrthwynebu o dan WPS, a chynnwys a gweithrediad y cynlluniau sy'n cynnwys safonau gwasanaeth o'r fath; 4. i bennu mathau pellach o safonau gwasanaeth y gellid eu gwrthwynebu o dan WPS neu i ddileu neu addasu safonau gwanaeth o'r fath; 5. i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau o dan WPS; 6. i bennu'r weithdrefn fanwl ar gyfer ceisiadau i gofrestru, amrywio neu ganslo gwasanaeth sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau cofrestru o dan WPS; 7. i bennu'r gweithdrefnau manwl y mae'n rhaid i'r comisiynydd traffig eu defnyddio i hysbysu am cais cofrestru, sut y caiff sylwadau eu gwneud yn dilyn hysbysiad o'r fath, a sut y mae'n rhaid penderfynu ar geisiadau; 8. i wneud darpariaeth atodol am y weithdrefn ar gyfer canslo gwasanaethau, gan gynnwys amodau y mae'n rhaid eu bodloni gan weithredwyr i osgoi canslo gwasanaeth; 9. i bennu lefel a chwmpas ffioedd sy'n daladwy i awdurdodau lleol wrth gyflawni swyddogaethau'r comisiynydd traffig; 10. i amrywio'r broses apeliadau a'r amserlen ar gyfer apeliadau mewn perthynas â chofrestru WPS; ac 	

11.i wneud darpariaethau atodol am awdurdodau lleol yn cyflawni swyddogaethau cofrestru'r comisiynydd traffig.

BETH ALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?

Bwriedir WPS i fod yn ddarpariaeth galluogi i awdurdodau lleol, pan allai trefniant partneriaeth statudol gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau bysiau mewn ardal leol. Bydd rheoliadau, a chanllawiau cysylltiedig, yn sefydlu gweithdrefn glir a manwl ynghylch sut y dylai WPS weithredu ar lefel weithredol.

Pwyntiau 1 a 2 - o dan WPS, caiff awdurdod lleol ddarparu cyfleusterau neu ymgymryd â mesurau fel rhan o'i rôl yn y cynllun partneriaeth. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau a sonnir ym mhwynt 1 uchod, yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd pan ellid ystyried cyfleusterau neu fesurau sydd eisoes yn bodoli wrth sefydlu WPS. Er enghraifft, os oedd awdurdod lleol wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn lonydd bysiau, gallai'r rheoliadau ganiatáu cynnwys seilwaith o'r fath yn y cytundeb partneriaeth. Bwriedir y byddai'r rheoliadau yn ystyried pryd y daeth y cyfleusterau neu'r mesurau hynny i effaith (pa mor hen ydynt) a math neu raddfa cyfleusterau neu fesurau sydd eisoes yn bodoli y gellir eu cynnwys mewn WPS. Mae pwynt 2 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau am y weithdrefn wrth wneud, amrywio neu ddirymu WPS.

Pwyntiau 3 a 4 - mae'r Bil yn galluogi gweithredwyr bysiau i gyflwyno gwrthwynebiadau i awdurdodau lleol, ar faterion penodol, ynghylch WPS arfaethedig. Gellir defnyddio'r pwerau i wneud rheoliadau a sonnir uchod ym mhwyntiau 3-4 i ddarparu ar gyfer sut y gellir gweithredu'r drefn wrthwynebu ffurfiol gall gynnwys materion megis: yr hyn y gellir ei wrthwynebu; yr hyn a gaiff ei ystyried yn 'gwrthwynebiad derbynol'; a'r hyn a gaiff ei ystyried yn nifer digonol o wrthwynebiadau. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau ym mhwyntiau 3 a 4 hefyd yn ymdrin â'r safonau gwasanaeth y gellir eu gwrthwynebu o dan gynllun ac maent yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu safonau gwasanaeth eraill neu ddileu neu amrywio safonau sydd eisoes yn bodoli o fewn cynllun.

Pwynt 5 – yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud canllawiau mewn perthynas ag arfer swyddogaethau awdurdodau lleol o dan WPS.

Pwyntiau 6 a 7 - gellir defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau a ddisgrifir ym mhwyntiau 6 a 7 i nodi'r weithdrefn ar gyfer ceisiadau i'r comisiynydd traffig i gofrestru, amrywio neu ganslo gwasanaeth lleol sy'n dod o dan WPS. Mae'r Bil yn cynnig pan fo cais o'r fath yn cael ei wneud, rhaid i'r comisiynydd traffig ddyroddi hysbysiad i'r holl weithredwyr perthnasol a'r awdurdodau lleol, yn eu hysbysu am eu hawl i gyflwyno sylwadau ynghylch y cais. Gall rheoliadau o dan yr adran hon o'r Bil (adran 11) nodi materion o fanylder pellach ar gyfer y broses hon, er

enghraifft, pennu'r gweithdrefn ar gyfer rhoi hysbysiad, cyflwyno sylwadau a phenderfynu ar gais.

Pwynt 8 – mae'r Bil yn cynnig bod y comisiynydd traffig yn cael ei rymuso i ganslo cotrestru gwasanaeth os nad yw'n cael ei ddarparu yn unol â'r safonau gwasanaeth a osodir gan WPS ac y gall rheoliadau wneud darpariaethau atodol i'r perwyl hwn.

Pwyntiau 9-11 – mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol i gyflawni nifer o swyddogaethau'r comisiynydd traffig pan fo WPS mewn grym. Mae'r pwerau a ddisgrifir ym mhwyntiau 9-11 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni'r rôl hon. Cynigir yn y Bil pan fo awdurdod lleol yn cyflawni swyddogaeth gofrestru'r comisiynydd traffig, caiff godi ffi. Mae pwynt 9 yn disgrifio pŵer Gweinidogion Cymru i bennu drwy reoliadau lefel a chwmpas y ffioedd hyn sy'n daladwy i awdurdodau lleol. Mae pwynt 10 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu amserlen a gweithdrefn ar gyfer apelïadau mewn perthynas â chofrestru WPS, ac mae pwynt 11 yn darparu hyblygrwydd i wneud darpariaethau atodol ynghylch awdurdodau lleol yn cyflawni swyddogaethau cofrestru comisiynydd traffig. Bwriad y rheoliadau hyn yw cefnogi gweithrediad ymarferol WPS drwy roi mwy o gyfrifoldeb am reolaeth ddydd i ddydd y trefniadau gweithredu i'r bartneriaeth.

PAM FOD ANGEN Y RHEOLIADAU?

Bwriad polisi y darpariaethau WPS yn y Bil yw darparu'r fframwaith statudol y gall gweithredwyr bysiau ac awdurdodau lleol weithredu cyfres o welliannau cytunedig i ansawdd a darpariaeth gwasanaethau bysiau yn unol ag ef. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau dull WPS llwyddiannus, bydd angen ystyried cydbwysedd o ran y bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau. Bydd manylion gweithredol y cydbwysedd hwnnw, megis rolau a chyfrifoldebau'r ddwy ochr, y paramedrau ar gyfer gwrthwynebu'n ffurfiol, a'r gweithdrefnau ar gyfer cydymffurfio ag WPS pan fydd mewn grym, yn cael eu nodi mewn rheoliadau. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth fanwl am faterion technegol mewn cysylltiad ag WPS heb lyffeitheirio wyneb y Bil.

Bydd defnyddio rheoliadau hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb yn amserol ac yn hyblyg pe bai angen adolygu gofynion y broses apelio neu lefel y ffioedd sy'n daladwy ar gyfer cofrestru WPS.

Gwybodaeth berthnasol arall

Ym mis Rhafyr 2018, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar geisiadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a'r diwydiant bysiau drwy'r Papur Gwyn ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus, ynghyd â chyfres o gyfarfodydd dilynol gyda rhanddeiliaid allweddol yn 2019.

Byddai'r rheoliadau a gynigir o dan y pwerau hyn yn destun ymgynghoriad a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid.

RHAN O'R BIL	RHAN 2: CYNLLUNIAU AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU A BYSIAU LLEOL
RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â	Pennod 2: Cynlluniau masnachfreinio Cymru
ADRAN(NAU) LLE Y CYNIGIR PWERAU	15,16, 19 a 26 (ynghyd â pharagraff 3(5)(c) o'r Atodlen)
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	

Er mwyn darparu system mwy ymarferol o fasnachfreinio yng Nghymru, mae'r Bil yn cynnwys cyfres o ddiwygiadau deddfwriaethol i fynd i'r afael â chyfyngiadau darpariaethau presennol y Cynllun Contractau Ansawdd a nodir ar hyn o bryd yn adrannau 124 i 134B o Ddeddf 2000.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer Gweinidogion Cymru i nodi, drwy reoliadau, nifer o fanylion sy'n ymwneud â'r broses o sefydlu cynllun masnachfreinio Cymru, neu amrywio neu ddirymu cynlluniau o'r fath.

Darperir y pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i:

1. diwygio'r isafswm cyfnod amser rhwng ymrwymo i gontractau masnachfreinio lleol, a darparu gwasanaethau o dan y contractau hynny;
2. diwygio'r cyfnod mwyaf y mae'n bosibl gohirio cynllun masnachfreinio Cymru rhag dod i rym;
3. gwneud darpariaeth atodol at ddiben rhoi effaith i'r prif ddarpariaethau sy'n ymwneud â chanslo neu amrywio gwasanaethau a gofrestrwyd yn unol ag adran 6B o Ddeddf 1985;
4. gwneud darpariaeth bellach yn ymwneud â chynlluniau masnachfreinio Cymru, i gynnwys darpariaeth am y weithdrefn i'w dilyn wrth wneud, amrywio neu ddirymu cynlluniau; eithrio gwasanaethau; a mân faterion eraill sy'n ymwneud â chynlluniau masnachfreinio Cymru;
5. gwneud darpariaeth drosiannol yn ymwneud â dod â chynlluniau masnachreinio Cymru i rym, eu parhau a'u terfynu; a
6. ategu'r darpariaethau a wnaed yn adran 134B o Ddeddf 2000, ynghylch cymhwyso Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ("TUPE") i drosglwyddiadau perthnasol a wneir pan fo cynllun masnachfreinio Cymru yn ei le.

BETH ALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?

Bwriad y polisi yw y bydd y rheoliadau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i hwyluso gweithrediad ymarferol cynlluniau masnachfreinio Cymru drwy bennu manylion technegol pellach yn ymwneud â'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud,

gweithredu, amrywio neu ddirymu cynlluniau masnachfreinio a nodir ar wyneb y Bil.

Pwynt 1 – mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i o leiaf 6 mis fod wedi mynd heibio rhwng llunio contract masnachfreinio lleol a darparu gwasanaethau o dan y contract. Pwrpas darpariaeth o'r fath yw caniatáu i weithredwyr sydd wedi bod yn aflwyddiannus yn y broses tendro contractau mansachfreinio i wneud y trefniadau ymarferol angenrheidiol i ddod â'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i ben. Bydd hefyd yn caniatáu amser i'r gweithredwyr hynny sydd wedi ennill contractau masnachfreinio baratoi i ddarparu'r gwasanaethau o dan y contractau hynny. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u galluogi, drwy reoliadau, i amrywio'r isafswm o 6 mis pe bai angen.

Pwynt 2 - yn debyg, byddai'r pŵer gwneud rheoliadau ym mhwynt 2 yn caniatáu i Weinidogion Cymru amrywio'r cyfnod mwyaf o 6 mis y gellir gohirio cynllun masnachfreinio. Ystyrir bod yr amserlen bresennol a nodir ar wyneb y Bil yn briodol er mwyn ystyried oediadau caffael rhesymol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen addasu'r cyfnod hwn drwy reoliadau er mwyn, er enghraifft, ganiatáu ar gyfer prosesau caffael hirach.

Pwynt 3 – mae'r pŵer gwneud rheoliadau a sonnir uchod ym mhwynt 3 yn ymwneud â sefyllfaoedd pan fo gweithredwr wedi cofrestru gwasanaeth lleol yn unol ag adran 6B o Ddeddf 1985 pan fydd cynllun masnachfreinio yn ei le, a bod awdurdod lleol yn ystyried y dylid canslo neu amrywio'r gwasanaeth oherwydd ei fod yn effeithio'n andwyol ar weithrediad y cynllun mansachfreinio. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd yn ofynnol i'r comisiynydd traffig ganslo neu amrywio gwasanaeth ar gais awdurdod lleol, ond mae'r Bil yn rhoi'r hawl i'r gweithredwr apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn y penderfyniad i ganslo neu amrywio. Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn nodi darpariaeth bellach o ran y weithdrefn ar gyfer hysbysu'r gweithredwr am benderfyniad i ganslo neu amrywio gwasanaeth, a phryd fydd y penderfyniad hwnnw'n cael effaith.

Pwynt 4 - er ymdrinnir ar wyneb y Bil â'r darpariaethau manwl sy'n ymwneud â gwneud ac amrywio cynlluniau masnachfreinio Cymru a'u dwyn i rym, cynigir hefyd fod Gweinidogion Cymru yn cael y pŵer i wneud darpariaeth atodol bellach ynghylch y materion hyn drwy reoliadau. Fel y disgrifir ym mhwynt 4, gallai'r rheoliad gynnwys darpariaeth bellach ynghylch gwneud, amrywio neu ddirymu cynlluniau; eithrio gwasanaethau (er enghraifft, gwasanaethau pellter hir yn teithio drwy ardal fasnachfrait) a mân faterion eraill. Bydd y pŵer gwneud rheoliadau hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer gwneud a gweithredu cynllun masnachfreinio yn ddichonadwy, ac yn parhau i fod yn ddichonadwy yn ymarferol.

Pwynt 5 – yn disgrifio pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ymdrin â'r trefniadau trosiannol y gall o bosibl fod eu hangen i gefnogi'r gwaith o ddod â chynllun masnachfreinio Cymru i rym, ei barhau a'i derfynu. Bwriad y pŵer hwn fyddai helpu i sicrhau bod gwasanaethau yn parhau ar gyfer defnyddwyr bysiau mewn ardal leol.

Pwynt 6 - ystyriaeth weithredol bellach o ran gwneud cynllun masnachfreinio yw'r hyn a fydd yn digwydd i staff pan fo contractau masnachfreinio lleol yn cael eu llunio. Mae'r Bil yn darparu, dan amgylchiadau rhagnodedig, y bydd staff sy'n gweithio i weithredwr nad yw bellach yn gymwys i ddarparu gwasanaeth pan fydd cynllun masnachfreinio yn dod i rym yn trosglwyddo i'r gweithredwr a fydd yn darparu'r gwasanaethau hynny dan y contractau masnachfreinio sydd wedi'u gosod (fel petai TUPE yn gymwys). Fel y nodir ym mhwynt 6, cynigir bod Gweinidogion Cymru yn gallu ategu'r ddarpariaeth a wnaed yn Neddf 2000 ynghylch cymhwyso TUPE fel bod mesurau diogelu ychwanegol yn gallu cael eu cyflwyno i'r staff sy'n trosglwyddo, er enghraifft, mewn perthynas â'u hawliau pensiwn.

PAM FOD ANGEN Y RHEOLIADAU?

Byddai'r penderfyniad i symud i ddull masnachfreinio o ddarparu gwasanaethau bysiau lleol yn newid mawr i farchnad fysiau ardal. Mae'r darpariaethau deddfwriaethol yn y Bil wedi'u drafftio i sefydlu proses statudol i sicrhau bod ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i effaith bosibl cyflwyno cynllun masnachfreinio. Bydd y rheoliadau cysylltiedig ar gynlluniau masnachfreinio Cymru yn darparu manylder gweithdrefnol pellach ac yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i sicrhau bod y weithdrefn hon yn ddichonadwy ac yn gadarn yn ymarferol.

Mae'r pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â chynlluniau masnachfreinio yng Nghymru yn hoelio sylw ar elfennau technegol ac ymarferol y cynllun ac mae'r darpariaethau ar wyneb y Bil yn cyfyngu ar eu cwmpas. Bydd yr hyblygrwydd a ganiateir drwy reoliadau, a'r gofyniad i adolygu effeithiolrwydd cynlluniau o leiaf bob tair blynedd, yn bwysig i fireinio sut y caiff cynlluniau masnachfreinio eu sefydlu yng Nghymru, ac i sicrhau bod masnachfreinio yn ddull hyfyrw ar gyfer awdurdodau lleol ac yn opsiwn ymarferol ar gyfer gweithredwyr bysiau.

Fel y disgrifiwyd uchod, mae'r pwerau is-ddeddfwriaethol hyn yn hanfodol i ragnodi materion o fanylder technegol ac i ddarparu hyblygrwydd ar gyfer materion y gall fod angen eu haddasu, i hwyluso'r ffordd y mae cynlluniau masnachfreinio yn dod i rym ac yn cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Fe'i ystyrir yn fwy priodol cynnwys manylion gweithdrefnol o'r fath mewn rheoliadau yn hytrach na'u nodi'n llawn ar wyneb y Bil.

Gwybodaeth berthnasol arall

Ym mis Rhagfyr 2018, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer trefniadau masnachfreinio yn y Papur Gwyn ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus, ynghyd â chyfres o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid yn ystod 2019. Er bod llawer o blaid gwella gwasanaethau bysiau drwy gynigion masnachfreinio, tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at yr heriau ymarferol a rhai problemau cymhleth o ran cyflawni cynlluniau o'r fath. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y byddai'r rheoliadau arfaethedig a'r canllawiau cysylltiedig yn darparu ffordd ymarferol o ymdrin â'r problemau gweithdrefnol, ac y byddai'n cynnig yr hyblygrwydd i ddiwygio'r ddeddfwriaeth pe bai angen i sicrhau bod y trefniadau masnachfreinio yn parhau mor ddichonadwy â phosibl. Byddai rheoliadau o dan y pwerau hyn yn destun ymgynghoriad a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid.

RHAN O'R BIL	RHAN 2: CYNLLUNIAU AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU BYSIAU LLEOL
RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â	Pennod 3: Darparu gwybodaeth mewn cysylltiad â chynlluniau partneriaeth a chynlluniau masnachfreinio Cymru
ADRAN(NAU) LLE Y CYNIGIR PWERAU	21

DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU

Mae adran 21 o'r Bil yn nodi sawl math o wybodaeth berthnasol a all fod angen i awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i weithredwr ei darparu mewn cysylltiad â gwneud cynlluniau partneriaeth neu fasnachfreinio.

At ddibenion cynlluniau partneriaeth a masnachfreinio, caiff "gwybodaeth berthnasol" ei diffinio fel cynnwys gwybodaeth am:

- gyfanswm nifer y siwrneiau a ymgwymerir gan deithwyr;
- strwythur y prisiau ar gyfer y siwrneiau hynny;
- y refeniw a gynhrychir gan y gwasanaethau lleol hynny;
- cyfanswm y pellter a deithir gan gerbydau; a'r
- siwrneiau y mae'r gweithredwr wedi rhagweld y bydd yn cael eu gwneud a'r refeniw a ragwelir a ddaw i law gan y gweithredwr.

O ran cynlluniau masnachfreinio yn unig, mae "gwybodaeth berthnasol" hefyd yn cynnwys gwybodaeth am bersonau a gyflogir gan weithredwr sy'n darparu gwasanaethau lleol mewn ardal.

Mae'r adran hon yn cynnig bod gan Weinidogion Cymru'r pŵer, drwy reoliadau, i bennu mathau pellach o wybodaeth berthnasol y gall awdurdodau lleol ofyn i weithredwyr gwasanaethau lleol amdani.

BETH ALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?

Gorau po fwyaf o wybodaeth gywir am wasanaethau sydd ar gael oherwydd bydd yn helpu awdurdodau lleol i asesu pa un ai mai cynllun partneriaeth neu gynllun masnachfreinio yw'r dull gorau ar gyfer eu hardal, ac i adolygu effeithiolrwydd gweithredol WPA a chynlluniau masnachfreinio Cymru.

Mae'r newidiadau deddfwriaethol a gynigir yn y Bil yn nodi'r gofynion a fydd yn rhaid eu hystyried wrth gynnig cynllun partneriaeth neu fasnachfreinio newydd, er mwyn sicrhau bod unrhyw gynllun a fabwysiadir yn un cadarn. Mae'r gallu i dynnu

ar wybodaeth ddibynadwy am wasanaethau bysiau lleol yn hanfodol o ran cynnal asesiad trwyadl. Y bwriad yw y byddai'r 'gwybodaeth berthnasol' a bennir yn adran 21 yn cefnogi'r asesiad hwn a dim ond yr awdurdod lleol, neu bersonau eraill a bennir yn yr adran y gall ei defnyddio, a hynny yn unig mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol yn arfer swyddogaethau WPS neu gynllun masnachfreinio a gynhwysir yn y Bil.

Mae'r pŵer yn yr adran hon i bennu mathau pellach o wybodaeth berthnasol drwy reoliadau yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ynghylch y mathau o wybodaeth yr ystyrir yn angenrheidiol wrth asesu hyfywedd cynllun partneriaeth neu fasnachfreinio.

PAM BOD ANGEN Y RHEOLIADAU?

Mae'r pwerau is-ddeddfwriaethol hyn yn hanfodol i ragnodi materion o fanylder, ac i ddarparu hyblygrwydd ar gyfer materion y gall fod angen eu haddasu, i hwyluso asesiad cadarn i benderfynu pa un ai partneriaeth neu fasnachfaint yw'r dull priodol ar gyfer yr ardal leol.

Mae'r darpariaethau ar wyneb y Bil yn cyfyngu ar gwmpas y pwerau is-ddeddfwriaethol, o ran at ba ddiben y gellir defnyddio'r wybodaeth hon a'r cyfnod y gellir gofyn am wybodaeth amdano.

RHAN O'R BIL	RHAN 4: GWYBODAETH AM WASANAETHAU BYSIAU LLEOL
RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â	Pennod 1: Darparu gwybodaeth am wasanaethau gan weithredwyr gwasanaethau lleol (pan fo gwasanaethau yn cael eu hamrywio neu eu canslo)
ADRAN(AU) LLE Y CYNIGIR PWERAU	23

DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU

Mae'r adran hon o'r Bil yn galluogi awdurdodau lleol i gael gwybodaeth am wasanaeth pan fo gweithredwr bysiau wedi mynegi ei fod yn bwriadu amrywio neu ganslo gwasanaeth lleol. Bydd yr wybodaeth y gellir gofyn amdani yn ymwneud â:

- nifer y teithwyr sy'n defnyddio gwasanaeth;
- y siwrneiau a wneir;
- y prisiau siwrneiau a delir; a'r
- refeniw sy'n dod i law wrth weithredu'r gwasanaeth penodol.

Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer, drwy reoliadau, i:

1. rhagnodi manylder a fformat yr wybodaeth y gellir gofyn amdani, ac o fewn pa gyfnod y bydd yn rhaid darparu'r wybodaeth honno;
2. rhagnodi'r personau a all gael yr wybodaeth hon oddi wrth awdurdod lleol sy'n ei chael, ac at ba ddibenion y gellir ei defnyddio;
3. rhagnodi'r personau a all gael yr wybodaeth drwy awdurdod lleol arall yn trosglwyddo'r wybodaeth ymlaen ac at ba ddibenion y gellir defnyddio'r wybodaeth honno;
4. gwneud darpariaeth atodol mewn perthynas â gweithredwyr gwasanaethau bysiau yn datgleu gwybodaeth, er enghraifft, ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn gan awdurdodau lleol wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â datgelu gwybodaeth;
5. amrywio'r cyfnod na all gwybodaeth gan weithredwr fod yn ofynnol y tu hwnt iddo (3 blynedd ar hyn o bryd); a
6. darparu ar gyfer comisiynydd traffig i beidio â derbyn cais i amrywio neu ganslo gwasanaeth lleol pan nad yw gweithredwr wedi cydymffurfio â chais gan awdurdod lleol i ddarparu gwybodaeth.

BETH ALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?

Pan fo gwasanaeth lleol yn cael ei ganslo neu ei amrywio, mae gwybodaeth gywir am alw a defnydd y gwasanaeth yn hanfodol fel bod awdurdod lleol yn gallu asesu

a chynllunio'r gwasanaethau a fydd yn disodli'r rhai blaenorol fel eu bod yn diwallu anghenion o ran cwmpas ac amllder. Ar hyn o bryd, heb unrhyw ffordd o'i gwneud yn ofynnol i weithredwyr bysiau ddatgelu gwybodaeth am wasanaethau pan fyddant yn canslo neu'n amrywio gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli, dim ond rhagdybio lefel y galw am lwybr bws lleol ac unrhyw ddarpariaeth ddilynol a roddir yn ei le y gall awdurdodau lleol ei wneud.

Diben galluogi awdurdodau lleol i ofyn am yr wybodaeth hon yw eu helpu i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 63 o Ddeddf 1985 i sicrhau y darperir trafnidiaeth gyhoeddus o'r fath yn eu hardal y maent yn ei hystyried yn angenrheidiol i ddiwallu unrhyw anghenion trafnidiaeth gyhoeddus yn eu hardal. Bydd caniatáu iddynt gael mynediad i wybodaeth o'r fath yn eu galluogi i asesu pa lefel neu fodel o wasanaeth, os o gwbl, sy'n briodol i ddisodli'r un blaenorol ar gyfer y llwybr. Bydd gwybodaeth am nifer y siwrneiau a wneir ar lwybr, a'r prisiau tocynnau a delir gan deithwyr, yn helpu i sicrhau unrhyw wasanaethau y mae'r awdurdod lleol yn eu pennu'n angenrheidiol i ddisodli neu ategu gwasanaeth sy'n cael ei ganslo neu ei amrywio'n cael eu cynllunio'n ddoethach.

Yn ogystal â hynny, drwy ganiatáu i'r awdurdod lleol rannu'r wybodaeth am wasanaethau yn dryloyw mewn unrhyw broses dendro ar gyfer disodli gwasanaeth, mae cynigion tendrau a gyflwynir yn debygol o fod yn fwy cost-ffeithiol a realistig wrth adlewyrchu costau gweithredu gwirioneddol, yn hytrach nag asesiad chwyddedig i gynnwys galw anhysbys ar y llwybr.

Bydd y pwerau gwneud rheoliadau yn adran 23 o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu pa wybodaeth y bydd yn rhaid ei datgelu; pwy all gael yr wybodaeth honno, a sut y gellir ei defnyddio.

Bydd **Pwynt 1**, uchod, yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau'r math o wybodaeth (a all fod yn wybodaeth am wasanaeth neu refeniw) y gall awdurdod lleol ofyn i weithredwr amdani, a phennu o fewn pa amserlen y bydd angen darparu'r wybodaeth hon i'r awdurdod lleol. Y bwriad yma fyddai cael yr wybodaeth cyn canslo neu amrywio'r gwasanaeth, gan roi digon o amser i awdurdod lleol gynllunio a oes angen disodli'r gwasanaeth hwnnw.

Mae **Pwyntiau 2 a 3** yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu â phwy y gellir rhannu'r wybodaeth hon. Y bwriad yw y gellid rhannu'r wybodaeth gyda gweithredwyr eraill fel rhan o'r broses o ddisodli gwasanaeth, neu gydag awdurdod lleol cyffiniol, gan gynnig mwy o gyfle i gydgyllunio gwasanaethau yn fwy effeithiol. Pan fo gwybodaeth yn cael ei rhannu gydag awdurdod lleol cyffiniol, mae'n bosibl y caiff ei drosglwyddo ymlaen gan yr awdurdod hwnnw i weithredwyr fel rhan o'r broses gaffael ar gyfer disodli gwasanaeth.

Pwynt 4 – byddai'r hyblygrwydd a ganiateir o dan bwynt 4 yn sicrhau y gallai Gweinidogion Cymru addasu'r broses o ddatgelu gwybodaeth pe bai hynny'n angenrheidiol at ddibenion ymarferol, yn ogystal â nodi'r gweithdrefnau y byddai'n rhaid i gwmnïau bysiau eu dilyn wrth ddarparu gwybodaeth a'r broses byddai'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn wrth dderbyn yr wybodaeth hon.

Pwynt 5 – ar hyn o bryd, mae'r Bil yn darparu mai'r cyfnod mwyaf y gellir gofyn am wybodaeth amdano yw 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Bydd y Bil, fodd bynnag, yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio'r cyfnod hwn drwy reoliadau.

Mae **Pwynt 6** yn disgrifio'r sancsiwn bosibl am fethu â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani: gall rheoliadau bennu y dylai'r comisiynydd traffig wrthod cymeradwyo cais i ganslo neu amrywio gwasanaeth pan nad yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cael ei datgelu. Mae'r pŵer hwn yn atgyfnerthu'r cyfle i awdurdod lleol gael yr wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad gwybodus am ddisodli gwasanaeth.

PAM FOD ANGEN RHEOLIADAU?

Gyda'i gilydd, byddai'r pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth yn yr adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym pe bai angen unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r ffordd y darperir gwybodaeth i awdurdodau lleol, a'r ffordd y caiff ei defnyddio ganddynt. Fe'i ystyrir yn fwy priodol cynnwys manylion gweithdrefnol o'r fath mewn rheoliadau yn hytrach na darpariaeth o'r fath yn cael ei nodi ar wyneb y Bil.

Bydd y rheoliadau hyn yn cael eu datblygu drwy broses ymgynghori gyda rhanddeiliaid. Bydd y broses yn caniatáu diwygio'r rheoliadau yn ôl yr angen i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymdrin â gwybodaeth am wasanaethau'n briodol.

RHAN O'R BIL	RHAN 4: GWYBODAETH AM WASANAETHAU BYSIAU LLEOL
RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â	Pennod 2: Pŵer i ofyn am wybodaeth am wasanaethau bysiau (data agored)
ADRAN(NAU) LLE Y CYNIGIR PWERAU	24
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Mae adran 24 o'r Bil yn cynnig bod Gweinidogion Cymru yn cael y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr bysiau (y rhai sy'n gweithredu gwasanaeth ar hyn o bryd a'r rhai sy'n ymgeisio i gofrestru, canslo neu amrywio gwasanaeth), awdurdodau lleol a'r comisiynydd traffig ddarparu gwybodaeth ragnodedig am wasanaethu bysiau sy'n gweithredu yng Nghymru.</p> <p>Byddai'r wybodaeth ragnodedig hon yn cael eu nodi mewn rheoliadau a byddai'n cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. gwybodaeth am lwybrau bysiau, manau aros, amserlenni, prisiau siwrneiau, a'r math o docynnau sydd ar gael; 2. gwybodaeth am unrhyw newidiadau neu newidiadau arfaethedig i'r materion hyn; a 3. gwybodaeth am weithrediad y gwasanaethau. Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth "amser real" neu "byw" am niferoedd y teithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau, lleoliad bysiau ar lwybrau bysiau penodol a'r amserau y mae disgwyl iddynt gyrraedd manau aros, yn ogystal â gwybodaeth am weithrediad y gwasanaethau yn y gorffennol. <p>Mae'r Bil yn nodi mai diben cael yr wybodaeth hon yw ei darparu i'r cyhoedd, er mwyn gwella mynediad teithwyr i wybodaeth gywir a chyfredol am wasanaethau bysiau lleol.</p> <p>Yn ogystal â sefydlu pwy sy'n ofynnol i ddarparu'r wybodaeth; y math o wybodaeth y gellir gofyn amdani; ac at ba ddibenion y gellir defnyddio'r wybodaeth hon, mae adran 24 hefyd yn cynnig bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i bennu, mewn rheoliadau, y weithdrefn ar gyfer sut y derbynnir yr wybodaeth; pwy fydd yn cael yr wybodaeth; ac ym mha gyfnod y bydd angen darparu'r wybodaeth.</p>	
BETH ALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth sydd ar gael i deithwyr mewn perthynas â gwasanaethau bysiau lleol yng Nghymru yn anghyson, yn amrywio o ran ansawdd, yn bytiog ac yn aml wedi dyddio. Bydd yr wybodaeth a gesglir gan ddefnyddio'r pŵer hwn yn galluogi creu set gynhwysfawr o ddata agored ar gyfer y</p>	

gwasanaethau bysiau sydd ar gael ledled Cymru, y mae'n hawdd i'r cyhoedd gael mynediad ati.

Mae'r math o wybodaeth y byddai'r rheoliadau yn gymwys iddo yn cynnwys: llwybrau a mannau aros; amserlenni; prisiau siwrneiau a thocynnau; a gwybodaeth fyw, er enghraifft, pa mor brysur yw bws ac a yw'n rhedeg ar amser. Rhagwelir y bydd yr wybodaeth hon yn galluogi defnyddwyr bysiau i wneud dewisiadau deallus yn seiliedig ar ddata cyson sy'n hawdd cael mynediad atynt.

PAM FOD ANGEN Y RHEOLIADAU?

Dyluniwyd y pwerau gwneud rheoliadau o dan yr adran hon i sicrhau bod yr wybodaeth y gofynnir amdani oddi wrth gweithredwyr bysiau, a sut y gofynnir amdani, yn briodol ac yn gymesur, a bod proses gadarn ynghylch sut yr ymdrinnir â'r wybodaeth ac i bwy y dylid ei datgelu. Mae'r paramedrau o ran pa fath o wybodaeth y gellir gofyn amdani ac at ba ddibenion y gellir defnyddio'r wybodaeth honno wedi'u nodi ar wyneb y Bil. Mae pennu materion gweithdrefnol ychwanegol mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer casglu gwybodaeth a defnyddio'r wybodaeth yn ddichonadwy yn ymarferol. Bydd hefyd yn caniatáu i'r weithdrefn gael ei haddasu i ddiwallu newidiadau o ran gallu i ddarparu gwybodaeth benodol dros amser wrth i dechnoleg ddatblygu. Er enghraifft, er y byddai'n fwy effeithlon i gael yr wybodaeth am wasanaethau bysiau yn electronig, gall hynny ar hyn o bryd osod ormod o faich ar weithredwyr bysiau llai. Byddai defnyddio pwerau gwneud rheoliadau yn caniatáu i'r broses hon gael ei hadolygu a'i haddasu o dro i dro. Ar ben hynny, mae darparu gwybodaeth deithio "amser real" yn faes technoleg sy'n datblygu o hyd. Er y rhagwelir y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei datgelu i'r cyhoedd drwy wefannau ac apiau ffonau symudol, mae'n debygol y bydd y platfformau hyn yn addasu dros amser. Bydd y gallu i addasu'r broses ddatgelu drwy reoliadau yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol yn caniatáu i Weinidogion Cymru barhau i ymateb i ddatblygiadau newidiol ym maes technoleg.

Mae'r Bil hefyd yn cynnig y gall gofynion gwybodaeth fod yn wahanol ar draws Cymru (rhwng ardaloedd gwledig a threfol, er enghraifft), ac yn caniatáu'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu, mewn rheoliadau, ddarpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol.

Gwybodaeth berthnasol arall

Yn 2011, roedd yr ymchwiliad gan y Comisiwn Cystadlu i Farchnad Gwasanaethau Bysiau Lleol wedi argymhell y dylai awdurdodau lleol fod yn gallu cael, a lle bo'n briodol, ddatgelu gwybodaeth am refeniw a defnydd gwasanaethau bysiau cofrestredig sy'n cael eu canslo neu eu hamrywio. Mae'r Bil yn gyfle i weithredu'r argymhelliad hwn.

I gychwyn, ymdriniwyd â materion yn ymwneud â safon bresennol gwybodaeth am wasanaethau bysiau drwy wyth gweithdy gan randdeiliaid a gynhaliwyd ledled Cymru yn dilyn yr Uwchgynhadledd Fysiau gyntaf yn 2017. Defnyddiwyd hyn i fwydo cynigion ynghylch gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a monitro ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth ar Wella Trafnidiaeth Gyhoeddus, a gyhoeddwyd yn destun ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2018.

Daeth 130 o ymatebion i law i'r cwestiwn, 'Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ryddhau data agored ar lwybrau teithio, amserlenni, prisiau siwrneiau a thocynnau?', a dim ond 2 ohonynt oedd yn negyddol. Roedd thema glir y dylai data cywir o ansawdd uchel am wasanaethau bysiau fod ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cynrychioli pobl hŷn a phobl ag anableddau yn datgan yn glir ei fod yn hanfodol derbyn gwybodaeth gywir sy'n hawdd dod o hyd iddo. Mewn ymateb i'r cwestiwn, 'A ydych yn cytuno â'n cynnig i alluogi awdurdodau lleol i gael y pŵer i gasglu gwybodaeth ar wasanaethau sydd i'w canslo neu eu hamrywio, a lle bo'n briodol, ddatgelu'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses dendro?', roedd 98% o'r ymatebwyr wedi mynegi eu bod yn cytuno â hynny.

Byddai unrhyw reoliadau a gynigir o dan y pwerau hyn yn destun ymgynghoriad a thrafodaethau gan randdeiliaid.

RHAN O'R BIL	RHAN 5: CYFFREDINOL
ADRAN(AU) LLE Y CYNIGIR PWERAU	27
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
Mae adran 27 o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol; a darpariaeth ddarfodol, drosiannol neu arbed.	
BETH ALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
Byddai newidiadau a wneir gan y rheoliadau hyn wedi'u cyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol neu'n hwylus, a byddent yn gysylltiedig â dibenion y Bil pan fydd mewn grym.	
PAM FOD ANGEN Y RHEOLIADAU?	
Mae angen y ddarpariaeth hon i sicrhau bod y Bil yn gweithio ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth bresennol i sicrhau ei fod yn dod i rym mor ddi-rwystr â phosibl.	

RHAN O'R BIL	RHAN 5: CYFFREDINOL
ADRAN(AU) LLE Y CYNIGIR PWERAU	28
DISGRIFIAD O'R GORCHYMYN	
Mae'r gorchymyn hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cychwyn y Bil.	
BETH ALL Y GORCHYMYN EI GYFLAWNI?	
Bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno ystyried pryd i ddwyn i rym y darpariaethau gwahanol yn y Bil. Rhagwelir ei weithredu fesul cam. Pan fo rheoliadau yn hanfodol i sicrhau gweithrediad ymarferol y darpariaethau galluogi, y bwriad yw eu dwyn ymlaen drwy offeryn statudol ar yr un pryd y caiff y prif ddarpariaethau eu cychwyn.	
PAM FOD ANGEN Y GORCHYMYN?	
Mae angen y pŵer hwn i gychwyn darpariaethau'r Bil (ac eithrio'r darpariaethau yn Rhan 5) ar ddiwrnod a benodir gan Weinidogion Cymru.	